"Profwch bob peth; deliwch yr hyn sydd dda."—Paul.

YR

YMOFYNYDD.

RHYDDID, GWIRIONEDD, CARIAD.

CYFRES NEWYDD.] MAI, 1882. [RHIF 9.

CYNNWYSIAD.

	TUD.
Pregeth i Blant	193
Thomas Llewelyn o'r Rhigos	196
Gosod y Pen i helpu y Llaw	200
Ein Cyfarfodydd Chwarterol a Blynyddol	204
Duwinyddiaeth Gywir	207
Mr. John Thomas Jones (Eiddil Cynon)	210
Y Cyfarfod Chwarterol	212
Nodynau ac Holiadau	213
Marwgofion	215
Barddoniaeth	216

Pris Tair Ceiniog.

ABERDAR:

ARGRAFFWYD GAN JENKIN HOWELL, COMMERCIAL PLACE.

YR

YMOFYNYDD.

CYFRES NEWYDD.] MAI, 1882. [RHIF 9.

"Profwch bob peth: deliwch yr hyn sydd dda."—PAUL.

PREGETH I BLANT.

"Nac edrychwch bob un ar yr eiddoch eich hunain, eithr pob un ar yr eiddo ereill hefyd."—Phil. ii. 4.

Y MAE cyfiawnder yn rhinwedd ardderchog, a phe buasai mwy o gyfiawnder yn y byd buasai llai o ymrafaelion rhwng dynion, a llai o ryfeloedd rhwng Cenedloedd. Yr ydym oll yn caru cyfiawnder oddiar ddwylaw ereill; dysgwyliwn gael ein hiawnderau, ac os oes niwed yn cael ei wneyd i ni, os ydym yn dyoddef unrhyw fath o annghyfiawnder teimlwn ein bod yn cael ein niweidio, ac y mae genym hawl i gwyno neu achwyn. Ond a ydym mor bryderus am i ereill gael eu hiawnderau ag i hawlio yr eiddom ni ein hunain? A ydym ni mor bryderus am i gyfiawnder gael ei ganiatau a'i roddi i ereill ag i ni ein hunain? Os ydym feddiannol ar wir gariad bydd i ni ddymuno am gyfiawnder i bob dyn, ac nid yn unig i ni ein hunain. Pryd bynag y byddo yr hyn sydd gamsyniol yn cael ei gyfiawnu neu ei ddyoddef dylem gymmeryd o dan ein hystyriaeth pa un a ydym feddiannol ar allu i unioni y camwri a gosod pob peth mewn trefn? Nid yw ond peth naturiol i ni ymdrechu cael cyfiawnder ein hunain; ond y mae yn beth da ac ardderchog i ymdrechu sicrhau cyfiawnder i ereill; ac y mae yn arwydd o wir gariad at gyfiawnder pan y mae dyn yn foddlon gweithio yn galed ac i aberthu llawer o'i ddawn a'i amser yn yr ymdrech i wrthwynebu a diwygio camwri oddiwrth yr hyn nad yw ef yn dyoddef o'i blegyd ei hunan, ac i sicrhau cyfiawnder i'r sawl na allant amddiffyn eu hunain. Dim ond enaid ardderchog wnaiff hyn; tra y mae dynion difater ac hunanol yn foddlon, yn gysurus ac yn dawel a digyffro os nad ydynt hwy eu hunain yn dyoddef yr un cam ag y mae ereill yn ddyoddef o'i herwydd. Y fath enaid ardderchog oedd Granville Sharp.

Ychydig ragor nâ chan mlynedd yn ol yr oedd yn bosibl gweled caethwas hyd y nod ar ystrydoedd Llundain—yr hyn, yn ffodus, sydd anmhosibl yn bresenol. Ar yr amser hwnw yr oedd Negroaid yn cael eu dal mewn caethiwed yn Jamaica, ac ynysoedd ereill perthynol i Loegr yn West India ; a phan ddeuai teuluoedd Seisnig, y rhai oeddynt yn byw yno, i ymweled â Lloegr, dygent gyda hwynt wasanaethddynion duon, ac yr oedd y bobl dduon yma yn cael eu hystyried o hyd fel caethion, ac yn cael eu gorfodi i ddychwelyd yn ol gyda'u meistri pa un a fyddent yn dewis hyny neu peidio. Darfu i Negro o'r enw Somerset, yr hwn oedd wedi cael ei ddwyn i Lundain yn y modd yma gael ei gymmeryd yn sâl iawn, a chan fod ei feistr calongaled yn ystyried ei fod yn fwy o ennill nâ cholled iddo ef ei droi allan i'r ystrydoedd heb ofalu dim pe buasai yn trengu, gwnaeth felly ; ond yn ffodus i Somerset darfu i rai pobl garedig gymmeryd gofal o hono, ac heb fod yn hir iawn adferwyd ef i'w iechyd cynefinol. Yna dygwyddodd i'w feistr gyfarfod ag ef yn yr heol, a chan weled ei fod yn edrych mor iachus a galluog i waith, ymaflodd ynddo ac hawliodd ef fel ei eiddo. Onid yw hyn yn ymddangos yn echryslon iawn i ni yn y dyddiau presenol, sef clywed am un dyn yn eiddo dyn arall yn yr ystyr yma? Ond felly yr arferai fod, sef fod un dyn yn hawlio dynion ereill yr un modd ag yr hawliai ei geffylau a'i wartheg, a'i ddefaid, a'i foch, cyn i'r annghyfiawnder mawr a gresynus gael ei ymlid ffwrdd.

Yn awr, ymdrechwn ddychymygu beth oedd teimladau Somerset ; meddyliai ei fod wedi cael ei osod yn ddyn rhydd : yr oedd ar ei ffordd i ennill ei fara beunyddiol ei hun, a thrafod ei fusnes ei hun, a byw bywyd rhydd, pan y mae, mewn modd sydyn ac annysgwyliadwy, yn cael ei lusgo yn ol i gaethiwed. Yr oedd yn rhwym o fod yn teimlo mai annghyfiawnder dychrynllyd oedd i un dyn ymddwyn at un arall fel ei eiddo ; ond nid oedd gan y dyoddefydd yr un gallu i amddiffyn ei hunan. Onid oedd yno yr un dyn arall i'w gynnorthwyo? Onid oedd yno yr un dyn i weled fod cyfiawnder yn cael ei wneyd ? Y mae yn beth tebygol ddigon fod yno lawer o bobl a allasent weled arwyddion o ddychryn a digofaint yn wynebpryd y dyn tlawd yma pan gymmerai ei feistr afael arno, ac o bosibl fod rhai o honynt yn ystyried ei fod yn gwilydd mawr ac yn annghyfiawnder mawr, ond meddylient gyda llaw nad oedd dim a fynent hwy â'r anfadwaith, ac yn herwydd hyny ni wnaethent ddim. Yn ffodus, yr oedd yno un dyn o yspryd gwell a mwy rhagorol, sef Granville Sharp, yr hwn a deimlai fod a fynai ef a mynu cyfiawnder i'r negro tlawd yma. Felly cymmerodd ofal i beidio colli golwg arno ; gwyliai i ba le y cymmerai ei feistr ef, ac yn y diwedd llwyddodd i ddwyn ei fater o flaen y barnwyr. Rhoddodd y *trial* nid yn unig ei ryddid i'r dyn yma, ond gwnaeth lawer rhagor, sef bod yn offeryn i'w gwneyd yn gyfraith yn Lloegr, "na all yr un dyn fod yn gaethwas o fewn ei therfynau ;" hyny yw, os bydd caethwas i osod ei draed ar ei thiriogaeth ei fod yn ddyn rhydd y foment hono.

Dyledus oedd llawer dyn du a llawer menyw ddu am eu rhyddid i'r gyfraith newydd yma, a dysgodd rhai or cyfryw i siarad gyda diolch

am enw Granville Sharp—y dyn a deimlodd yn ddigllon oblegyd y camwri na allasai ei ddyoddef, a'r hwn a ymdrechodd yn galed i fynu cyfiawnder i'r sawl na allasent fynu cyfiawnder iddynt eu hunain.

Un diwrnod, wedi i'r gyfraith yma gael ei chyhoeddi; neu "mor gynted ag y mae caethwas yn gosod ei draed ar diriogaeth Seisnig ei fod yn rhydd," eisteddai boneddiges o flaen ei ffenestr agored yn un o'r tai dymunol a hardd sydd yn sefyll ar lanau y Tafwys yn Llundain, pan y clywid cri uchel allan o un o'r badau oedd yn myned i lawr gyda'r afon a'r enw a elwid arno mewn tôn o ymbil ac ing oedd Granville Sharp; yna bu dystawrwydd hollol. Efallai i gant o bobl glywed y llais hyny, oblegyd yr oedd y cri yn un uchel a threiddgar iawn, ac efallai i rai o'r personau yma feddwl ynddynt eu hunain rywbeth i'r perwyl yma "bid sicr rhaid mai rhyw negro tlawd, yr hwn sydd yn cael ei gario mewn modd anoghyfreithlawn i gaethwasiaeth ydyw, a'r hwn sydd yn galw ar Granville Sharp, cyfaill y caethweision, i'w achub. O! 'r fath drueni nad yw Granville Sharp ddim yma i gymmeryd y mater dan ei sylw. Bid sicr, dylai rhyw un fynu gweled fod cyfiawnder yn cael ei wneyd iddo; modd bynag, ni allaf fi wneyd dim; felly nid yw o un dyben i mi wneyd fy hunan yn anoghysurus ac annedwydd oblegyd ei dynged ef." Ond ni ymfoddlonai y foneddiges a eisteddai o flaen y ffenestr ar ddywedyd,—"Dylai rhywun fynu gweled fod cyfiawnder yn cael ei wneyd iddo." Na, dywedodd wrthi hi ei hunan, "y mae *yn rhaid i mi wneyd hyny*, ac ymdrechaf fynu gweled fod cyfiawnder yn cael ei weinyddu a'i ddangos at y dyn yma sydd yn cael cam." Felly rhedodd allan o'i thŷ gyda phob brys, ac aeth rhagddi gydag ochr yr afon gan ymdrechu cael allan o ba un o'r llawer badau ar yr afon y daeth y llais; ond ni chlywid ef bythi mwy, ac ni allai hi weled na chlywed yr unrhyw arwydd o unrhyw gyfyngder. Heb golli dim amser rhedodd i'r ddinas at yr Arglwydd Faer; dywedodd wrtho am yr hyn a glywodd ac erfyniodd arno i atal y badau a'r llongau oeddynt yn myned i lawr dros yr afon, a mynu ymchwiliad er cael allan pa un a oedd yno negro yn cael ei gario ymaith yn groes i'w ewyllys.

Gwnawd felly; ataliwyd yr holl longau a'r badau, gwnawd ymchwiliad iddynt, ac yn y diwedd cawd allan fod negro yn ngheudod un o'r llongau; yr oedd ei safn wedi cael ei gau, a rhywbeth wedi ei osod yn ei enau, yr hyn a'i ataliai i grio allan mwy; felly pe na buasai y foneddiges hono wedi bod yn effro a phenderfynol gyda golwg ar yr hyn ddylai wneyd, neu pe buasai yr Arglwydd Faer wedi gomedd rhoddi gorchymyn i chwilio y llongau a'r badau yn uniongyrchol, buasai y dyn tlawd yma yn cael ei gario ymaith i'r West India, ac efallai i fod yno dros y gweddill o'i oes.

Yn awr, sicr yw y dylai esiamplau Granville Sharp a'r foneddiges hon ysprydoli pob un o honom ninau â'r teimlad nad ydym, ac na ddylem ymfoddloni yn unig ar ymdrechu mynu ein hiawnderau ein hunain, ond ei fod yn rhaid i ni fynu iawnderau pobl ereill hefyd. Nid yn unig i ddynion a menywod, ond hyd y nod i bobl ieuanc a phlant y perthyn yr un ddyledswydd, yn eu gwahanol raddau. Dylai fod genym oll, y

fath gariad at gyfiawnder fel na allom oddef gweled yr un niwed yn cael ei wneyd i neb heb yn gyntaf peth gymmeryd dan ein hystyriaeth pa un a oes neu nad oes rhywbeth a allwn ni ei wneyd i osod terfyn buan arno.

Y mae llawer o gamwri yn y byd nad yw yn ein gallu ni i'w unioni a'i symmud ymaith, ond y mae llawer o faterion bychain gyda golwg ar y rhai y gallwn ddylanwadu er daioni pe gwnaem yr oll yn ein gallu yn achos cyfiawnder, ac ar rai amserau dim ond i ddweyd ychydig eiriau i ddatgan ein barn a nodi allan y camwri sydd yn cael ei wneyd. Gall hyn fod yn beth effeithiol er daioni. O ganlyniad, os gwelwch unrhyw un o'ch cydymdeithion a'ch cyfeillion yn gwneyd rhyw niwed i ereill, na fyddwch mor hunanol a meddwl a dywedyd nad oes dim a fynoch chwi ag ef, ond yn hytrach ymdrechwch gael allan pa un a ellwch chwi wneyd neu ddweyd rhywbeth all fod yn offerynol i osod terfyn ar bob camwri a pheri i gyfiawnder i gael ei wneyd. Cofiwch orchymyn yr Apostol:—"Nac edrychwch bob un ar yr eiddoch eich hunain, eithr pob un ar yr eiddo ereill hefyd."

M.M.

THOMAS LLEWELYN O'R RHIGOS.*

Mae y rhan bwysig a gymmerodd y gwr dysgedig a galluog uchod yn nghychwyniad Annghydffurfiaeth yn Nghymru, a'r gorchwyl clodfawr a briodolir iddo gan Malkin yn ei "*Scenery, Antiquities and Biography of South Wales*," yn nghyd ag ymgais barhaus ysgrifenwyr o Ogledd Cymru, yn enwedig, i ddwyn y gogoniant hwnw oddiarno, wedi peri i mi synu a gofidio lawer gwaith na buasai rhyw ysgrifenydd gonest a diduedd yn ceisio chwilio allan yr oll o'r ffeithiau cyssylltiedig â hanes bywyd yr hen fardd enwog, can belled ag y mae yn bossibl mewn oes mor bell oddiwrth yr hon yr oedd efe yn byw ynddi, a'n cyhoeddi, fel y gallo y cyhoedd gael mantais i farnu pa un oedd, ai "Pellenigyn nad oedd yn ymhoni mewn un dawn rhagorach na'i fod yn medru cyfieithu i'r Gymraeg Destament Saesneg William Tyndale," fel y galwai Gwallter Mechain ef; neu ynte, "y gwr dysgedig, y bardd rhagorol, y pregethwr poblogaidd, a'r Ymneillduwr diofn," fel y darluniai Iolo Morganwg ef. *Amcenir*, beth bynag, yn yr ysgrif ganlynol, i wneyd i fyny y diffyg.

Tybir, ar seiliau rhesymol, mai yn Glyneithinog, Rhigos, y cafodd Thomas Llewelyn ei eni. Amaethdy yw Glyneithinog ("Glynthynog" y geilw trigolion presenol y gymydogaeth ef) yn nghwr mwyaf gog-

---

* Mae yr Ysgrifenydd yn ddyledus am ranau o gynnwysiad yr ysgrif hon i Draethawd annghyhoeddedig o eiddo Mr. W. T. Morgan, (Gwilym Alaw), ar "Hanes Rhanbarth y Rhigos," ac i Lyfrgell y Parch. R. J. Jones, M.A., y Golygydd.

leddol Maenor Blaengwrach, plwyf Glyncorrwg, ac y mae yn ffinio â Rhanbarth y Rhigos, plwyf Ystrad Dyfodwg; ac nid yn mhlwyf Ystrad Dyfodwg, fel y noda Malkin ar awdurdod Iolo Morganwg. Mae yr Amaethdy presenol wedi ei adeiladu o fewn y 55 mlynedd diweddaf, ac yn wynebu i'r Gorllewin. Yr oedd yr hen dŷ, yr hwn a dynwyd i lawr er adeiladu yr un presenol, yn wynebu i'r Gogledd. Y mae rhan o'i seiliau i'w gweled yn bresenol.* Mae tyddyn Glyneithinog yn awr yn meddiant Cwmpeini Gwaith Glo Fforchygarran, a Marchwyr y Cwmpeini a'u teuluoedd sydd yn byw yn yr Amaethdy, yn nghyd â thŷ newydd prydferth arall sydd wedi ei adeiladu yn ddiweddar gerllaw.

Nid ydys yn sicr yn mha flwyddyn y cafodd ei eni; ond meddylir mai o gylch 1500, canys cafodd ei dderbyn i Orsedd Beirdd Morganwg yn 1520. Nid oes amheuaeth am hyn, o herwydd yn ol hen ysgrif o eiddo Ieuan Tir Iarll, ceir mai enwau Beirdd yr Orsedd y flwyddyn hono oeddynt, "Lewis Morganwg (Cadeirydd); Meurig Dafydd o Lanisan; Dafydd Benwyn o'r Regoes; Llewelyn Sion o Langewydd, a Thomas Llewelyn o'r Regoes."

Mae yn amlwg iddo gael addysg foreuol dda—llawer gwell nag a roddid i feibion tyddynwyr yn y dyddiau anaddfed hyny, ac mae yn ddilys ei fod yntau yn meddu galluoedd anarferol i ddysgu. Profir hyn gan y ffaith ei fod wedi meistroli Rheolau Barddoniaeth Gymreig, a'r holl bethau a ddysgwylid i Feirdd Gorseddog yr oes hono fod yn hyddysg ynddynt i'r fath raddau fel ag i hawlio derbyniad i Orsedd Beirdd Morganwg pan nad allasai, am resymau a nodir rhagllaw, fod rhyw lawer dros ugain oed, os oedd wedi cyrhaedd yr oedran hwnw. Dywed rhai iddo gael addysg golegawl, ac iddo gael ei godi i'r swydd offeiriadol, ac iddo fod am dymhor yn gwasanaethu fel offeiriad yn y Faenor, gerllaw Merthyr Tydfil; ond nid ydym yn barnu fod un sail i gredu hyny, o herwydd nid yw ei enw yn mysg enwau efrydwyr Rhydychain a Chaergrawnt yn yr oes hono; ac mae y ffaith iddo gael ei drwyddedu i Bregethu yn Gymraeg† gan yr Archesgob Grindal, ac i'r Archesgob, drwy wneuthur hyny i Llewelyn, yn mysg ereill, dynu gŵg yr "Offeiriaid rheolaidd," yr Esgobion, ac hyd y nod y frenines Elizabeth ei hun, yn milwrio yn erbyn y dyb iddo fod yn offeiriad.

Yn rhinwedd y drwydded hono, pregethai yn aml mewn anneddau, ac am dymhor yn yr Eglwysydd cylchynol, a thebyg i hyny fod yn achos i lawer feddwl iddo fod yn offeiriad rheolaidd.

---

* Mewn tŷ bychan, yr hwn oedd wrth dalcen yr hen Amaethdy, y ganwyd y cerddor enwog Rosser Beynon (Asaph Glan Tâf), awdwr "Telyn Seion," &c.

†"Prophesy"—proffwydo, oedd yn y drwydded. Cyfeirir at y "Proffwydo" hwn yn y Cywydd a anfonodd ei hen ddysgybl, Siancyn o Ddefynog i'w gyssuro yn ngwyneb ei ddallineb:—

"Ac nid wyd *Proffwyd praffwyn*,
Archawr doeth, yn ngharchar dyn."

Cawn achlysur i ddychwelyd at y Cywydd hwn etto.

Fel Bardd, cyrhaeddodd safle uchel yn mysg ei gydoeswyr; ac y mae yr hyn sydd ar gael o'i gyfansoddiadau, yn profi ei fod yn wr o foesoldeb diamheuol, ac yn Gristion syml a difrifol. Yr oedd yn hoff o gymdeithas ei frodyr barddonol, a byddai yn aml yn ymbresenoli yn eu cyfarfodydd. Ceir ei fod mewn Eisteddfod a gynnaliwyd yn nhŷ ac o dan nawdd y Parch William Evans, Canghellydd Esgobaeth Llandaf, yn yr hen ddinas hono yn y flwyddyn 1561. Wele yn canlyn ddeg Englyn a gyfansoddodd ac a adroddodd yn yr Eisteddfod o gynghor i'r beirdd :—

"Canwch, ymlwybrwch am lais—gwirionedd,
Ag ar uniawn ymgais,
A moliant, nid gair malais,
A gadu sen gyda Sais.

Bu hardd ganiadau beirddion—hen amser
Yn ymswyn rhag geuon;
Da yw iaith awen doethion,
Dyd wybodau brau mhob bron.

Dysgwn gynghorion dwysgall—i'r ifeinc
Nid rhyw ofer ddeall;
Gyrwn ar drang fo'n anghall,
Bai'n gwawd na bu bawb yn gall.

Arfer iaith ofer, ni thwg—er ein lles
A'n rhoi'n llaw trythyllwg;
A da gan ddoethion diwg,
Y nwyf a draill na fo drwg.

Prydwch a dysgwch mewn dewisgerdd—lân
A fo lwydd rhag anngherdd;
A gogan a thwyll geugerdd;
Rhowch y gwir yn mraich y gerdd.

Rhowch eiriau gorau Duw gwyn—yn gauad
Ar Gywydd ac Englyn,
A ddal i bawb i'w ddilyn;
Dyna'n tasg; nid iawn ond hyn.

Ein iaith yn ein gwaith sy'n goethach—ei gair
Nag ereill sydd daerach;
Mae dan anaf yn afiach,
O'i gwenwyn oll, gwnawn hi'n iach.

Gwaith geuffydd beunydd mewn byd—y mae drwg
Yn ymdroi mewn gwynfyd;
A nodfawr dan ei adfyd,
Yn ein tir y gwir i gyd.

Dodwn ffydd Dofydd a'i dyfiant—yn lle'r gau
Rho'wn llwyr gudd ar ffuant,
A phenwn roi ar ffyniant
Y da o blaid Duw a'i blant.

Deunaw o gampau dawnus—bu rhai'n
Ar Wgawn ap Rhys ;
Ac un gamp ddrwg ar Wgawn
Yn difwynaw'r deunaw dawn."

Ceir ei fod mewn Eisteddfod arall yn yr un lle yn y flwyddyn 1564. Ei gymdeithion yn yr Eisteddfod hono oedd y gwr enwog Syr Thomas Jones (Twm Sion Catti), o Aberhonddu ; ei gymmydog Dafydd Benwyn o'r Rhigos ; Giles ap John ; William Dyfi ; Thomas Brwynllys ; Meurig Dafydd o Lanisan ; Shon Mawddwy (y Tincer gynt o Fargam, yr hwn y pryd hwnw oedd wedi priodi Etifeddes Mawddwy, ac yn byw yn y Gogledd) ; Thomas Lewis ; Meredydd ap Rhosser ; Hopkin Twm Phylip ; Syr John Gryffydd o Langrallo, a'i frawd Ifan. Y Beirniad, fel arfer, oedd y Parch. William Evans, y Canghellydd. Bu Thomas Llewelyn yn yr Eisteddfod ddiweddaf a gynnaliwyd yn nhŷ y Canghellydd yn Llandaf, yn y flwyddyn 1585, pan oedd efe yn hen wr o ran dyddiau ; ond yn ysgafn a heinyf o ran corff a meddwl.

Mewn hen ysgrif o eiddo Dafydd Nicholas, Bardd teulu Aberpergwm, a'r diweddaf, fe ddichon, o hen feirdd teulu y Dywysogaeth, yr hwn a anwyd yn y flwyddyn 1693, ac a gladdwyd yn Nghapel Aberpergwm, yn y flwyddyn 1769, ceir a ganlyn :—

"Thomas Llewelyn o'r Regoes a'i cant yn cynghori ei fab Llewelyn Thomas, yr hwn oedd yn wr call a doeth dros ben, ac yn brydydd awenfawr a chelfyddydgar, ac yn feddyg dyn ac anifail da iawn ; eithr yr oedd efe yn oferddyn o daplaswr,* ac yn feddwyn echrydus. Fe werthws y Glyneithinog, ac yr oedd efe wedi hyny yn ennill ei fara wrth ddysgu boneddigion y wlad i ddarllen Cymraeg. Wedi iddo werthu ei dreftadaeth, gwnaeth ei dad iddo y llinellau canlynol :—

"Llewelyn, meddwyn gormoddiad—ydwyt
Mab adwyth yn wastad ;
Efrydd wyt fab yr afrad,
Trwy dy d—n aeth tre' dy dad.

O waeled hynt a wela'
Na estyn Duw oes dyn da,
A dinystr er daioni
I ddynion drwg ddau neu dri.'

Atebodd Llewelyn fel hyn :—

"Da gwelodd Duw deg olwg
I estyn dro oes dyn drwg ;
A gado, rhag lluddio lles,
I awr dda ei orddiwes.

"Bryd arall, a'r mab erbyn hyn wedi cyrhaedd penllwydni, ond etto yn glynu wrth ei oferedd, cynghorodd y tad ef fal hyn :—

---

* Clywodd yr Ysgrifenydd yn y flwyddyn 1850, hen wr pedwar ugain oed o Bontneddfechan o'r enw Evan Simon, yr hwn oedd yn cofio clywed llawer o son am Dafydd Nicholas yn dweyd nad oedd yntau (Dafydd) fawr gwell yn y cyfeiriad hwn,

Gwel haint, gwel henaint, gwel hyn—bechadur
Baich ydyw i'th ganlyn;
Troes fel llwydrew dy flewyn,
Oer y gwaed naws† eira gwyn.

Yn flin dy ddeulin; dy ddwylaw—'n drymion
Wrth dremynt yn teimlaw;
Llygaid a chlustiau'n ll'wygaw,
A sarhaed ar y traed traw.

Duw a wnel, pan ddel poen ddialedd—trwm
It' gael trem ar ffoledd;
A gweled gwaeled y gwedd—
Afiachus yw dy fuchedd.

Duw a welo rhag dialedd—o'i rad
Dy roi'n rhydd o'th farwwedd
I ochel barn a chael bedd,
A 'goryd pyrth trugaredd.

Cynghor da medra mhob man—i eraill
A'i wirio'n ddiogan;
A chynghor drwg olwg wan
O'm hanaf imi'm hunan.‡

(*I'w barhau.*)

GOSOD Y PEN I HELPU Y LLAW.

Mae y llaw yn *offeryn* ardderchog, pwrpasol a deheuig; offeryn yw wedi ei leoli yn y man iawn ac yn y modd iawn, ac yn gallu cyflawnu gwaith mawr a da o dan gyfarwyddyd priodol.

"Hynod a pharod offeryn,—cynydd
Amcanion y coryn,
A phenaf urdd llafur-ddyn,
Yw'r llaw deg, mawr allu dyn."

Ystyriai Syr Charles Bell y llaw o gymmaint pwys fel y darfu iddo ysgrifenu llyfr i nodi ei rhagoriaethau. Ei phrif ddyben yn ngolwg y baban bach yw, i drosglwyddo pob peth i'w enau, ac yn sicr y mae yn bur bwrpasol at hyny o orchwyl. Mae o fewn cyrhaedd bob amser, a phob amser hyd y gall yn barod i ufuddhau i orchymynion y V. (yr Ego.) Cyll y nerth yma weithiau mae yn wir. Wedi myned yn hen, ac wedi ei pharlysu, nid yw gorchymynion yr Ego yn gallu sicrhau

† Arferir "*Naws*" yn y parthau hyn i ddynodi tymheredd, ac hefyd i ddynodi "dim" neu "ychydig," megys, "Ni fyddi *naws* gwell o'th holl drafferth." "Ni fyddi *naws* callach o wrandaw baldorddyn." Yn yr ystyr gyntaf y defnyddir ef uchod.

‡ Barnai Dafydd Nicholas fod yr Englyn diweddaf hwn yn awgrymu fod y mab o'r diwedd wedi derbyn cynghorion dwys ei dad, ac wedi troi yn ddyn da.

ufudd-dod bellach. Ond tra parhao iechyd a nerth nid oes dim yn fwy parod ac ewyllysgar. Yn ystod y dydd y mae myrdd a mwy o *orders* yn cael ei gyru gan yr Ego at y Llaw; a braidd yr ymddengys y Llaw byth yn blino. Fodd bynag, *partners in Co.* wedi'r cwbl ydyw y ddwy law, a chylch eu gweithrediadau ynddynt eu hunain yn gyfyng iawn. Nis gallant fyned yn mhell o honynt eu hunain, ac o honynt eu hunain ychydig feallai y maent yn alluog i'w wneuthur. Gall y *Co.* (y cwmni) wneuthur llawer, hyd y nod pan mae gallu y gwahanol aelodau ar eu pen eu hunain yn fychain. Yma fel mewn cyfeiriadau ereill—mewn undeb mae nerth. Medrai y dall a'r cloff lawer gyda'u gilydd gynt, y dall yn cario'r cloff. Pan mae dwy goes dda yn cydfyned â dwy law dda, eangir cylch y gweithrediadau yn fawr.

Ni all y llaw ddim llawer o honi ei hunan. Yr oedd Dafydd y Crydd mawr yn dywedyd mae *pound* oedd pwysau ei law ef, a phan oedd y siopwr wedi colli ei bound, mynai Dafydd iddo gymmeryd ei law ef i bwyso'r ymenyn; ond ni chytunai y siopwr, nid oedd ganddo gred yn llaw Dafydd. Medrai y crytiaid yn y llythyrdy gynt benderfynu pa bryd yr oedd llythyr dros hanner wns—ac felly pa bryd oedd y doll geiniog yn rhy fach. Ond nid gwaith llaw yn gwbl oedd eu gwaith hwy. Yn un peth o leiaf yr oedd yno hir arfer wedi bod; ac yn y cychwyn yr oedd yno ofal mawr a sylw mawr wedi bod. Ie yr oedd y pen wedi bod yn helpu y llaw. Meddai yr hen ddiareb "Nid iangwr ond o *arferau*. No one is a clown but from habit." Yr un wedd nid doethineb heb arfer, nid celfyddyd heb arfer, a hir arfer. "Movements" meddai rhywun, "whether of body or of mind come to be self-repeating"; ac yn y copi yn blentyn arferem ysgrifenu "Practice makes master."

Ond cofier mai "Like master, like man;" ac fel y byddo'r Ego y bydd y Llaw. Nid oedd yr hen frawd Thomas Rees ond dyn o gorff-olaeth bychan, ac er mwyn troi allan swm rhesymol o waith, yr oedd yn gorfod dybynu mwy ar synwyr nag ar nerth. Cynghor hoff ganddo oedd "Os na fyddi di gryf, bydd di gyfrwys." Ond mor fynych y clywn ni ddynion yn cael eu desgrifio fel yn meddu mwy o nerth nag o synwyr. Purion peth yw meddu nerth cawr, os bydd synwyr cawraidd yn cydfyned i'w lywodraethu. Meddai yr elephant Jumbo nerth a maintioli arnthrol ond ni chlywsom erioed ei fod yn meddu llawer o synwyr. Yr oedd morthwyl mawr Abernant yn pwyso o 5 i 6 tynell, ond gellid ei osod i gracio cneuen heb niweidio y cnewyllyn, a chracio *glass watch* heb wneuthur un drwg pellach. Nid fod y synwyr yn y morthwyl wrth gwrs, ond yr oedd y synwyr gerllaw yn rhywle, ac yn gweithredu. Mae yr Ego yn rhwym o fod yno.

Fe wnaiff tafod cloch swn mawr, ond gadawer y rhaff yn llonydd, a hi dawa ei chlap ar unwaith. "Y tafod" meddai Iago, "tân ydyw, byd o annghyfiawnder." Ac etto "y tafod, ni ddichon un dyn ei ddofi." Ond peidied yr Ego a thynu wrth y rhaff a bydd y tafod yn ddigon dystaw ar unwaith. I ba beth y bëir y tafod. Nid yw y tafod ond offeryn ar yr hwn y mae yr Ego yn chwareu; ac os "yn bendithio Duw" y bydd, neu os "yn melldithio dynion" y bydd, gwna

bob un o'r ddau dan ddylanwad yr Ego. A'r llaw hithau yr un peth, nid yw ond offeryn i'r Ego. Nis gall ein teimladau fod yn llai nâ chymmysglyd pan feddyliom am Archesgob Cranmer yn cael ei losgi i farwolaeth yn amser Mary (1556). Mynai efe mai y llaw oedd wedi troseddu, ond druan â'r llaw, ni theimlai hi un euogrwydd. Cranmer ei hunan oedd wedi bradychu ei egwyddorion, a Chranmer ei hunan oedd yn blino o herwydd hyny; a phan ddaliodd ei law yn y tân, ac y llefodd "This hand has offended, this hand has offended," nes oedd y llaw wedi ei llosgi yn ulw, ni chafodd Cranmer fyned yn rhydd o'r poen oedd yn cydfyned â hyny.

Dywedir i grwt un tro adrodd yn lle adnod yn H.D.C. y Cefn y geiriau hyn: "Na roddwch fwyd cloddiwr i deiliwr, rhag iddo gryffa a thori'r edeu." Cynghor da. Os na fydd ychwanegiad synwyr yn cydfyned ag ychwanegiad nerth y mae perygl. Mae gallu y tân a gallu yr afon yn werthfawr tra gellir eu cadw dan lywodraeth, ond y mae perygl yn fynych yn dyfod pan fyddo y gwas yn troi i fod yn feistr. Yr ydym wedi gweled llawer dyn yn gall ddigon tra mewn cyflwr isel, ond yn ffol iawn wedi myned i ben cyfoeth,—yn meddu digon o synwyr i ateb y naill gyflwr, ond rhy fach i ateb y llall. Mae ychwanegu cyfoeth yn ychwanegu gofal, ac ychwanegu nerth a gallu yn fynych yn ychwanegu gofid. Nid mwy o giau a gewynion yw yr unig beth i droi allan mwy o waith; nage, ond mwy o ben, mwy o ymhenydd. Pen Menelaus yn Dowlais wnaeth fwyaf tuag at ddyblu a threblu y gwaith a droid allan yno yn ystod y 30 mlynedd diweddaf, ac nid y degau o ddwylaw newyddion a ddaethant yno o Sir Gaer a Sir Aberteifi. Y llaw meddai dynion yw mam llafur; hawdd dywedyd hyny, ond anhawddach profi. Y llaw sydd gan y mwnwr yn tori'r glo, a chan yr amaethwr yn dal yr aradr; ac etto paham y rhoir yr holl gredyd i'r llaw? A oes dim peth, dim mwy, yn ddyledus i'r pen? Mae yn sier o fod. Fe gyflawna'r mwnwr a'r amaethwr well gwaith a mwy o hono, po fwyaf o ben ddodant ynddo. Pen da a wna'r llaw yn forwyn dda. Fe ddysg y llaw dan gyfarwyddyd pen da; ond llaw hurtyn fydd gan ben hurtyn tra fyddo byw. Mae pen da a llaw dda yn parhau i wella o hyd. "Faint o amser gymmerodd i chwi baentio'r darlun yna?" meddai rhywun wrth Syr Joshua Reynolds. "Fy holl fywyd," oedd yr ateb. Ac felly yr oedd. Yr oedd profiad bywyd wedi galluogi'r pen a'r llaw i drosglwyddo'r lliwiau yna ar y *canvas*. "A pha beth yr ydych yn cymmysgu eich lliwiau?" meddai rhywun wrth baentiwr arall o Sais. "*With brains, Sir*," ydoedd ateb hwnw. Ag ymhenydd! dyna'r point. Nid yw y llaw ond offeryn wedi'r cwbl, ac y mae mor rhesymol dywedyd fod yr aradr neu y mandrel yn gwneuthur gwaith a dywedyd fod y llaw yn gwneuthur hyny. Pen da, ymhenydd da,—yn y cyfeiriad yna y mae ffynnonell nerth. Meddai'r Psalmydd: "Os annghofiaf di, Jerusalem, *annghofied fy neheulaw ganu*." "Let my right hand forget its *cunning*." Mae y llaw yn dyfod yn gyfrwys iawn dan gyfarwyddyd pen medrus. Yr hyn a gyssylltodd Duw, felly, na wahaned dyn. Cadwer y pen i lywyddu y llaw. Y pen, neu yr Ego, ddylai fod *mainspring*, prif-ysgogydd ein holl weithrediadau. Mor

fynych y clywn ni ddynion yn dywedyd na wnaiff eu cof byth arbed eu coesau. Onid yw hyny yn dyfod o ddiffyg arfer. Gwell pwyll nag aur, meddai hen ddiareb, ac ystyr hyny yw defnyddio'r pen. "Knowledge is power," meddai Bacon; gwybodaeth sydd nerth, ac yn mha le mae gwybodaeth os nid yn y pen? Arferer y pen gan hyny. "Habit" meddai Thurot, "is the memory of the organs, or that which gives memory to the organs." Arfer wnaeth y brenin Dafydd yn feistr ar y delyn, gan roddi i'w ddeheulaw y fath fedrusrwydd. Edrycher ar ddwylaw y telynwr yn rhedeg dros y tanau; ymddengys fel pe byddai yr holl gyfrwysder yn awr yn y dwylaw, ond y pen a roddodd y gallu i'r dwylaw, ac y mae arfer wedi gwneuthur eu gwaith yn awr megys yn ail natur iddynt.

"Mae holl gelfyddyd bywyd" meddai Paley, "yn gynnwysedig yn yr iawn osodiad o'n harferion." Chwi bobl ieuainc, gwyliwch ar eich arferion. Ymgedwch oddiwrth bob arfer a ddichon arwain i ddrwg. Mae genych ben ar eich ysgwyddau, defnyddiwch ef. Mae Rhaglunaeth wedi ei ddodrefnu yn dda o'i du ef, edrychwch chwithau eich bod yn cyflawnu eich rhan chwithau. Rhowch waith a digon o hono i wahanol ddosparthiadau eich galluoedd. Felly y dadblygwch ac y rhoddwch nerth iddynt. Cynghor George Stephenson i bobl ieuainc oedd: "Gwnewch fel y gwnaethum i, dyfalbarhewch." Ie, dyfalbarhewch yn yr iawn arfer o'ch holl alluoedd. Mae Davis, Castellhywel, yn nodi allan ddyledswyddau rhieni at eu plant fel yma:—

Dysgwch ddeddfau'r Arglwydd iddynt,—
Ymbiliwch arnynt, gweddiwch drostynt;
Arferwch i ryw waith yn forau;
Gwyliwch rhag rhoi gormod gwyliau,
Swydd o'i dylyn wella'r iechyd,
Sobra ffyliaid, ac a'u gwared rhag seguryd;
Deddfau glan, ac ofn yr Arglwydd
Yn yr enaid fyth a'u gwared rhag gwaradwydd.

Ein cynghor felly wrth derfynu i was neu forwyn, i feistr neu weithiwr, i bawb yw, "Gosod dy ben i helpu dy law." Y pen wel y gwaith a'r llaw a'i cyflawna. Ymarferer cadw y pen wrth ben y gwaith. Gwnaiff defnyddio mwy ar y pen arbed mwy ar y corff; a pho fwyaf o synwyr fo yn y gwaith, goreu 'gyd fydd. Y pen sydd yn gwneuthur crefftwr, nid y llaw. Y pen ddangosa fedr a chelfyddyd, nid y llaw. Nid nerth ond synwyr sydd yn nodweddu y crefftwr da. Gall pum munyd o ben yn fynych arbed awr o gorff. *Capital* oddiwrth y Lladin *caput*, y pen, ffrwyth y pen yw, yn fwy nag eiddo'r llaw. Mae'r corff yn werthfawr, a'i holl aelodau yn werthfawr, beth wnaethem hebddynt? Ond y pen, "*brains, sir*," a esyd y gwerth mwyaf ar waith yr oll o honynt. Mae cyssylltiad rhwng *llaw* feallai a *lla-fur*, *la-bar*. Ond lle mae'r llaw yn brif offeryn, "corff yn enill, corff yn hela" yw y *motto*. Dal ysgyfarnog a'i bwyta, os nid ei bwyta cyn cael yr arian i'w phrynu. Nid tori'r got yn ol y brethyn, y bais yn ol y bwer, ond yn fynychach syrthio i dlodi a dyled yw y canlyniad. I ba beth yr

ymollynga dyn, sydd wedi ei ddonio â rheswm a deall, i fod yn anifail a dim ond hyny? Mae cynydd a gwareiddiad y byd yn dybynu ar y pen yn fwy nag ar y llaw. Y pen sydd yn dyfeisio, a'r llaw sydd yn cario allan. Angen mam dyfais, yw yr hen ddiareb. Ond nis gall-ai'r llaw o honi ei hunan fyth ddyfeisio yr un cynllun i ddiwallu yr un angen. O ran y llaw *Standfastiaid*, Toriaid, fyddem i gyd. Aros yn yr un fan fyddai ein harwyddair, a'n credo fyddai: Fel yr oedd yn y dechreu, y mae yr awr hon, ac y bydd yn wastadol. Ond dan ar-weiniad rhyw "ben mawr," "*brains, sir*," yr ydym o hyd yn myned yn y blaen, o hyd yn dringo, yn cynyddu, yn gwella. Felly gosoder a aller o ben, *brains, sir*, o hyd i oruwch lywodraethu holl weithrediadau y llaw.

Ebrill 8, 1882. T.C.U.

EIN CYFARFODYDD CHWARTEROL A BLYNYDDOL.

(Parhad o tudalen 176.)

Gwelwn ynte mai er mwyn gwrthwynebu annghrediniaeth, taenu gwybodaeth o'r gwirionedd fel y mae yn Nghrist Iesu, anog i gariad a gweithredoedd da ac addoli Duw mewn cyssylltiad â hyn y sefydlwyd y Gymdeithas y mae'r Cyfarfod Blynyddol yn rhan o honi ac yn nglyn â hi.

Ni bu i grefydd ein Harglwydd Iesu Grist erioed ffyddlonach cyf-eillion, ac amddiffynwyr mwy galluog a dysgedig o'i gwirionedd a'i dwyfol darddiad na'r hen Undodiaid, megys Lardner, Priestley a'r cyffelyb, nac ychwaith yn eu haiddgarwch dros ei symledd a'i phurdeb y bu gwrthwynebwyr mwy di-ildio o'r llygredigaethau crefyddol a ar-weinasant ac sydd etto yn arwain llawer i eithafion annghrediniaeth.

Yr wyf yn gofyn yn awr a ydyw'r amgylchiadau wedi newid er cynt, fel nad yw mwyach yn angenrheidiol i amddiffyn y gwirionedd, cymhell ein gilydd i fyw yn rhinweddol, ac ymgynnull at ein gilydd i gydaddoli'r Bod Goruchaf fel brodyr a chwiorydd? Mae annghredin-iaeth yr un mor frysg yn bresenol ag ydyw wedi bod mewn un oes, ond nid yw pob annghrediniaeth *un-rhyw* annghrediniaeth. Nid yr un yw ei ffurf bob amser. Yn agored, onest a diorchudd fel eiddo Mr. Bradlaugh, Mr. Holyoak, Mr. Moncure Conway, Mr. Ingersoll a'r cyffelyb, nid yw yr un mor niweidiol i Gristionogaeth, ond pan y mae annghrediniaeth yn ymdrwsio yn nillad gwynion yr Efengyl, yn ymrithio yn angel, yn ymlusgo'n lladradaidd i mewn i'n pwlpudau, yn ysprydoli ein diaconiaid a'n blaenoriaid Eglwysig, pryd hyny y mae yn wir beryglus a niweidiol; ac nid rhyfedd fod cynnulleidfaoedd blodeuog a pharchus unwaith, yn marw yn raddol dan ei dylanwadau. Mae, mae annghrediniaeth onest, egwyddorol i gael, ac y mae ynddi

fwy o yspryd crefydd nag y sydd mewn llawer achos crefyddol—proffesedig felly. Mae'n ofynol bod yn *straightforward* mewn pob achos cyn y gellir dysgwyl llwyddiant. Aer i mewn i gapel Moncure Conway, neu i'r Hall lle mae Bradlaugh yn darlithio, a cheir fod y llefydd hyn yn cael eu gorlenwi gan wrandawyr—gan gynnulleidfaoedd sydd yn gwerthfawrogi yr hyn a draethir yno. Drachefn, aer i'r Capeli hyny lle mae'r achos, fel ei gelwir, ryw *half-and-half*—ryw hanner dywedyd a hanner celu pethau, ac fel rheol darfodedigaeth welir yno, cynnulleidfa denau o ddynion, a rheiny fel pe na bae waeth ganddynt fod yno nà pheidio. Os oes rhaid ymosod ar Fab y Dyn, gadewch i ni wneuthur hyny fel gelynion agored, ac nid fel Judas yn ei fradychu à chusan. Nawr gan mai dyma'r olwg sydd ar bethau, a gwnawn ni ddim sefyll ar ein traed a chedi ein llais yn nullais yn ein gwahanol gyfarfodydd yn erbyn annghredíniaeth yn ei holl ffurfiau, ac o blaid y gwirionedd fel y mae yn Nghrist Iesu? Yspryd ein tadau fyddo yn nerthol ac yn anwrthwynebol ei ddylanwadau arnom.

Hefyd, mae athrawiaethau cyfeiliornus yn enw Cristionogaeth yn cael eu pregethu a'u credu yn y wlad—y Drindod, y Pechod Gwreiddiol, Cyfiawnder Cyfrifol, Poenau Tragywyddol, &c. Ychydig os dim o'u gafael mae rhai'n wedi golli mewn rhai manau. Pregethir hwynt gan fygwth damnedigaeth dragywyddol ar y rhai na'u credo. Yn ein Cyfarfodydd Blynyddol a Chwarterol, yr amser aeth heibio, yr oedd ein Gweinidogion yn ymosod mwy ar gyfeiliornadau crefyddol, yr wyf yn lled gredu, nag a wnawn ni yn awr, neu, fel y dywedir yn gyffredin, yn pregethu yn fwy *athrawiaethol*, ond ar yr un pryd yn *ymarferol*. Y pwnc heddyw yw "Paham y cynnaliwn ni fel *Undodiaid* ein Cyfarfodydd Blynyddol," &c. Ie fel *Undodiaid*. Nid iawn i ni annghofio ein Hundodiaeth yn ein gwahanol gyfarfodydd ac ymollwng gyda'r llifeiriant. Os Undodiaid, fel y cyfryw y mae i ni fyw, symmud a bod. Oud, wrth gadw ein syniadau yn y *front* ni ddylem anmharchu nag enllibo dynion o groes farn. Y "*suaviter in modo et fortiter in re*" ddylai fod ein *motto*,—gofalu am gadw "undeb yr yspryd yn nghwlwm tangnefedd." Pe byddem ni fel enwad yn Lloegr a Chymru, a gwledydd creill, ond bod yn ffyddlon i'n hegwyddorion, ac ymddwyn yn gall a Christionogol, yr wyf yn credu y byddai i ni lwyddiant mawr. Mae'r credoau poblogaidd mewn rhai manau yn dangos arwyddion henaint a dadfeiliad. Mae cocden fawr *Orthodoxy* a rhai o'i changenau yn crino ac yn syrthio; mae'r meusydd yn wynion eisoes i'r cynauaf; ac nid oes a saif yn ngoleuni gwyddoniaeth yr oes bresenol, a bod hefyd yn ymborth ysprydol i eneidiau dynion ond Undodiaeth Gristionogol. Bydded fod sefyll i fyny o blaid y "ffydd a draddodwyd unwaith i'r saint" yn un o ddyhenion ein cyfarfodydd.

Y mae, o leiaf yr *oedd*, ein cyfarfodydd yn cael eu galw weithiau yn "gyfarfodydd Gweinidogion" am y rheswm fod Gweinidogion y gwahanol barthau yn crynhoi at eu gilydd ar y pryd, ac yn treulio llawer o'u hamser gyda'u gilydd mewn rhyw ystafell gyfleus i siarad yn gyfeillgar a brawdol ar wahanol bynciau'r dydd, i ystyried a cheisio deall arwyddion yr amserau, i astudio amgylchiadau y gwahanol gyn-

nulleidfaoedd, i adrodd eu profiadau, methiant neu lwyddiant unrhyw gynllun profedig, a gwneuthur trefniadau newyddion gyferbyn a'r dyfodol; a'r cyfan er mwyn achos y Gwirionedd. Cyfeillach felus oedd hon, a phan y byddai yn cael ei thori i fyny, yr oedd yn *ymadawiad brodyr o galon*—brodyr yn gytun, heb neb yn tynu'n groes. Nid ydym ni y Gweinidogion presenol yn gwybod ond ychydig mewn cymhariaeth am felusderau cyfeillach o'r fath hon. Nid wyf yn gwybod beth yw'r achos o hyn. Yn hytrach na chredu fod undeb a chariad Gweinidogion wedi llaesu ac oeri, gwell genyf feddwl mai'r amgylchiadau sydd yn anffafriol. Carwn gael lle i obeithio nad yw y rhwystrau yn anorfod, ac y ceir etto adferiad o'r cyfeillachau hwylus, gwresog, cariadus, Cristionogol ac adeiladol gynt. Yr wyf yn credu fod hyn hefyd yn un o ddybenion sylfaeniad ein cyfarfodydd, pa un a fyddwch chwi yn cytuno â mi neu beidio.

Yn mhellach, mae yn rhesymol i feddwl fod cylchyniad cyfarfodydd o'r fath yn gynnorthwyol i aidd a bywyd ychwanegol yn ein cynnulleidfaoedd, a chyda hyn mewn rhyw fesur yn foddion i enyn yspryd ymofyniad yn y cymmydogaethau fyddo yn agos i'r manau lle y cynnelir y cyfarfodydd. Mae'r cynnulleidfaoedd yn fwy na thebyg yn diflasu mewn rhyw fesur ar yr un llais, yr un dón, yr un *style* ysdrydebedig o bregethu. Nid Spurgeons, Channings, Stanleys, Parkers, Joneses, &c., ydym ni oll. Mae yn ddiamheu fod y bobl yn caru cyfnewidiad ac amrywiaeth yn awr ac yn y man, hyd y nod, ar ryw olwg, pan fyddo hyny er gwaeth. Wrth gyrchu i r cyfarfodydd hyn dysgwylir fod y Gweinidogion yn dyfod yn eu dillad goreu, a'u pregethau goreu yn eu llogellau, os na fydd lle arall iddynt. Felly, y mae pob cynnulleidfa yn ei thro yn cael clywed y pethau goreu sy'n cael eu traddodi o amser i amser yn nghlywedigaeth yr holl gynnulleidfaoedd ereill. Nid pregethu am y goreu, fel pe bae rhyw fath o *preaching match* yn bod, wyf yn olygu, ond fod pob pregethwr ar ei eithaf fel gwas i Grist, mewn yspryd gostyngedig ac hunanymwadol, yn traethu geiriau'r Gwirionedd a bywyd tragywyddol wrth ei gydddynion.

Yn olaf, cofier y dylem bob amser yn Weinidogion a gwrandawyr ddyfod at ein gilydd gydag amcan ac mewn yspryd i addoli'r Arglwydd mewn prydferthwch sancteiddrwydd, gyda gwylder a pharchedig ofn.

Ni all, ac ni ddylai dyn gredu yr hyn sydd wrthun ac afresymol, yr hyn sydd yn ymddangos felly iddo ef, ar un dystiolaeth yn y byd. Pe dygid adnod o'r Ysgrythyr i brofi du yn wyn, ni fyddai du yn wyn oblegyd hyny. Mae du yn ddu, gwyn yn wyn, gwirionedd yn wirionedd, ac anwiredd yn anwiredd yn annibynol ar yr Ysgrythyrau. Fe ddichon yr Ysgrythyrau gadarnhau ein cred, ond nis dichon iddynt brofi gwirionedd dim i ni ag y mae ein Rheswm a'n Cydwybod yn gwrthdystio yn ei erbyn.

Tebyg yw ffug gyfaill i gysgod ar y deial, yr hwn sydd yn ymddangos pan fo'r tywydd yn deg, ond yn diflanu ar ddynesiad cwmmwl.

DUWINYDDIAETH GYWIR.

(Parhad o Tudalen 174.)

Yn awr bydd i'r rhai sydd yn dal y fath dduwinyddiaeth a hon gymhwyso ei hyspryd mewn gorchwylion dynol. Daw yr egwyddor i mewn wrth sefydlu deddfau i gospi drwgweithredwyr, ac wrth drin troseddwyr. Fe wna gosp yn brif nod ac nid diwygiad. Dysgai'r Iesu dosturi diderfyn, tynerwch anfeidrol at bobl bechadurus, gwan a syrthiedig y byd hwn. Dysgai fod i'r eryf ddwyn beichiau'r gwan, y cyfiawn i gynnorthwyo y drygionus, a bod yn rhaid i ni orchfygu drygioni a daioni. Pan y cymhwyser yr egwyddor yma at orchwylion dynol, fe ddiflana ysmotiau mawrion duon a heintus cymdeithas annghymmedroldeb, cnawdolrwydd, tlodi a throseddau; caiff y rhai hyn eu hiachau i'r gwraidd. Bydd i gymdeithas, ar ol cael ei phuro oddiwrth y gwenwyn yma, fyned yn mlaen i gyrhaeddiadau uwch nag a freuddwydiwyd am danynt erioed; ond ni chymhwysir yr egwyddor yma tra mae duwinyddiaeth ofn yn parhau i gael mwy o sylw nâ duwinyddiaeth cariad. Mae cynnydd cymdeithas ddynol yn ymddibynu ar symmud yn gyfangwbl y drygau cymdeithasol yma, ac nid ar eu hattal yn unig. Ac ni symmudir hwy ond trwy argraffu ar feddwl y byd yr olwg hono ar y santeiddrwydd dwyfol a'r testyn dwyfol a ddysgir gan yr Iesu yn y bregeth ar y mynydd, ac yn nammeg y mab afradlon, ydynt yn dangos fod gwraidd trosedd mewn pechod, ac yn ysprydoli ffydd ddwfn yn nghariad gwaredigol Duw.

Gall ymddangos i rai personau fy mod yn myned yn rhy bell wrth ddweyd fod gwir dduwinyddiaeth yn gorwedd wrth wraidd cynnydd dynol. Gallant briodoli cynnydd dynol i achosion ereill, i flaenfyn ediad gwybodaeth, i ddarganfyddiadau gwyddorol, i'r fath ddyfeisiau a'r argraffwasg, yr agerbeiriant a'r pellebyr, ond yr wyf fi yn eredu fod meddylddrychau ysprydol wrth wraidd pobpeth arall. Mae yr hyn a feddylia dyn am Dduw, dyledswydd ac anfarwoldeb, mewn gair ei dduwinyddiaeth yn bywhau neu yn marweiddio ei ddyddordeb mewn pob peth arall. Mae beth bynag sydd yn deffroi cydwybod, ffydd a chariad, yn deffroi hefyd ac yn hyrwyddo darganfyddiadau mewn gwyddor a chelfyddyd os nad oes rhywbeth uwchlaw y byd hwn neu tuhwnt i'r bywyd hwn; os ydym ni wedi dyfod o ddim, ac os ydym ni yn myned i ddim, pa ddyddordeb sydd i ni yn y byd yma? "Bwyttawn ac yfwn canys yfory marw yr ydym." Ond os ydyw'r byd yma yn llawn o Dduw, os ydym ni yn dyfod oddiwrtho ac yn myned ato, yna mae y byd yma yn ofnadwy o ddyddorol, ac yr ydym yn dymuno gwybod y cwbl am dano. Mae gwyddor bob amser wedi canlyn yn nghamrau crefydd, ac nid i'r gwrthwyneb. Fe aeth y *Vedas* o flaen gwareiddiad yr Hindwaid; fe arweiniodd y Zendavesta y ffordd i wareiddiad Rwssia; mae cof golofnau hynafol yr Aifft yn dwyn tystiolaeth i bresenoldeb syniadau crefyddol. Fe aeth deddfau Moses o flaen teyrnasiad Solomon; a darfu i'r gwareiddiad hwnw sydd wedi uno y Groegiaid, y Rhufeiniaid, y Gothiaid a'r Vandaliaid,

a'r Ffrancod a'r Prydeiniaid mewn un gwareiddiad cyffredinol ddechreuad mewn Cristionogaeth. Nid oedd y fath syniad, ac yn gaulynol, nid oedd y fath air i'w gael yn y byd cyn y daeth Crist.

Ond gellir dweyd fod yr enghreifftiau yna wedi eu tynu o'r fath gyfnodau tywyllion yn hanes y byd, fel mae'n ansicr pa mor bell yr oedd crefydd yn gweithredu ar wareiddiad a chynnydd dynol. Ond ceir enghreifftiau mwy diweddar sydd yn dwyn tystiolaeth i effeithiau rhyfeddol symmudiadau crefyddol ar gynnydd cymdeithas. Dyna y syniadau a gychwynwyd gan Mahomet yn mysg yr Arabiaid a berodd y fath gyfnewidiad yn arferion a nodweddd y genedl hono. O fod yn ddinod, daeth yn nerth syniad crefyddol yn un o alluoedd mwyaf nerthol y canol-oesau, ac mae ol ei dylanwad yn aros ar lenyddiaeth, gwyddor a gwareiddiad Ewrop y dydd heddyw. Gellir dweyd yr un peth am y diwygiad Protestanaidd a gychwynwyd gan Luther. Mae gwareiddiad yn ei holl gangenau, ac ar bob amser, yn tyfu allan o wreiddyn ysprydol; a ffydd sydd yn arwain at olwg ar bethau anwelediy a thragywyddol yn unig sydd yn creu y pethau a welir a'r rhai sydd dros amser.

Nid y ddwy dduwinyddiaeth yn yr amser presenol sydd yn sefyll yn wrthwynebol i'w gilydd yw Calfiniaeth ac Arminiaeth, nid Trindodiaeth ac Undodiaeth, nid crefydd naturiol a chrefydd oruwch-naturiol, ond duwinyddiaeth ofn ac anobaith ar un ochr, a duwinyddiaeth gwroldeb a gobaith ar yr ochr arall. Meddylia un fod yn rhaid i ddyn gael ei yru at Dduw gan ddychryn; ceisia'r llall ei denu trwy gariad. Nid oes gan y blaenaf o honynt ffydd mewn dyn, ond creda ei fod yn hollol ddrwg, fod pechod yn rhan hanfodol o hono. Creda y llall fod rheswm yn oleuni dwyfol yn yr enaid, ac mae yn ei gefnogi i weithredu yn rhydd. Mae'n ymddiried mewn cydwybod sydd wedi ei goleuo gan y gwirionedd, ac yn appelio ati yn hyderus; mae'n ymddiried yn y galon, ac yn ceisio ei hysprydoli á serchiadau haelfrydig a chariad anhunanol. Pwy all amheu y bydd i'r dduwinyddiaeth yma o ffydd fuddugoliaethu ar dduwinyddiaeth ofn? Mae y meddwl goreu, y grefydd ddyfnaf, hiraeth mwyaf ysprydol yr oes hon yn tueddu yn y cyfeiriad yma. Pa un a ydyw ein ychydig Eglwysi Undodiaid ni i luosogi neu peidio; pa un a ydyw'r fechan i fyned yn fil, a'r wael yn genedl gref yn yr ystyr yma neu peidio, nid wyf yn gwybod; ond yr wyf yn sicr fod y teimlad a ysprydolai enaid Channing i arwain yr oes sydd yn dyfod, ac i osod ei nod ar yr Eglwysi a fyddant yn cyfarwyddo ac yn cynnorthwyo y genedl sydd yn codi. Nid ydyw yn awr yn gwestiwn o Undod neu Drindod, ond mae yn rhywbeth llawer dyfnach a llawer mwy pwysig. Tra yn ymdrechu penderfynu y termau priodol mewn perthynas i dduwdod a dyndod Crist, yr ydym wedi cael ein harwain yn uwch nes cael golwg ar dadoldeb Duw a brawdoldeb dyn. Fel Saul mab Kish, ni a aethom allan i chwilio am asynod ein tad, ac wele ni a gawsom deyrnas,

Yr wyf wedi dyfynu llawer o ymadroddion tarawiadol o ysgrifeniadau yr Apostol Paul. Mae un yn gosod allan ei hiraeth am ragoroldeb uwch; ei fod yn anngbofio yr hyn oedd e' wedi gyrhaedd yn barod, a'i fod yn ceisio am well pethau, am fwy o wirionedd, a mwy o gariad. Mewn man arall mae'n galw ar ei ddysgyblion i fod yn Gristionogion rhesymol, ac nid yn blant mewn deall. Mewn manau ereill mae'n dweyd ei fod yn weinidog Yspryd yr Efengyl, nid ei llythyren, nad yw crefydd ddim yn yspryd ofn ond yspryd nerth, cariad a phwyll. Dywed hefyd wrthynt: "Sefwch gan hyny yn y rhyddid â'r hwn y rhyddhaodd Crist chwi," ac mae'n cynghori ei frodyr i beidio bod yn gul, neu yn rhagfarnllyd, ond i edrych ar beth bynag sydd yn brydferth, yn hawddgar, yn onest ac yn ganmoladwy, heb ofalu lle mae i'w gael. Ond ychydig amser cyn iddo ddweyd y geiriau yma, yr oedd ef y dyn mwyaf cul, ac eiddigar, ac yn hollol wrthwynebol i gynnydd. Pa beth gynnyrchodd y cyfnewidiad mawr yma yn ei enaid. Y rheswm oedd ei fod wedi cael gafael ar ddiuwinyddiaeth gywir. Dysgodd oddiwrth Grist i ymddiried yn y cariad dwyfol am faddeuant ac iachawdwriaeth. Dysgodd fod Duw yn Dduw y Pagan yn gystal â'r Iuddew. Dysgodd mai nid defodaeth, *seremoni*, sacramentau na ffurfiau, ond golwg ar Dduw fel Tad a chyfaill all waredu yr enaid yn wirioneddol o'i glefydau, a'i lanw â bywyd anfarwol. Duwinyddiaeth gywir oedd dirgelwch cynnydd dirfawr Paul, ei allu rhyfeddol i ddeffroi a gwaredu ereill. Mae llawer ag ydynt yn cyfrif ei ddiuwinyddiaeth yn dywyll ac yn annaturiol, ond pan y treiddiwn ni trwy len ffigyrau Iuddewig, yr ydym yn cael ei bod yn ddiuwinyddiaeth rhyddid, rheswm, cariad, yn ddynol ac yn dyner, yn haelfrydig ac yn rhesymol, ac mae'r ddiuwinyddiaeth yma, er ei bod wedi ei llychwino yn fawr tra yn pasio i lawr oddiwrth Paul at Awstin, Luther a Wesley, wedi bod bob amser yn allu cymhelliadol, gwareiddiad dynol a dadblygiad dynol.

Yr wyf yn meddwl gan hyny wrth ddiuwinyddiaeth gywir, yr hyn a feddyliai Paul pan y dywedai fod Duw wedi rhoddi i ni nid "yspryd ofn ond yspryd nerth, cariad a phwyll." Yr wyf yn meddwl yr hyn a ddywedai fod Duw wedi ei wneyd yn weinidog y Testament Newydd, nid i'r llythyren ond i'r yspryd, canys y llythyren sydd yn lladd, ond yr yspryd sydd yn bywhau. yr wyf yn meddwl y ddiuwinyddiaeth sydd yn gosod y sylwedd uwchlaw y ffurf, y peth o flaen yr enw, sydd yn edrych ar y ffeithiau ac nid ar y *label*.

Gadewch i ni, gan hyny, sydd yn galw ein hunain yn Gristionogion Rhyddfrydig, fod yn llawen ac yn ddiolchgar am yr Efengyl o ffydd a gobaith ydym yn fwynhau; a gadewch i ni gyfranu i ereill yr hyn ydym wedi dderbyn ein hunain. Os ydyw yn wir, fel yr ydym wedi ymdrechu dangos, fod cynnydd dynol yn ymddibynu yn fawr ar ddiuwinyddiaeth gywir, allwn ni ddim cymorthwyo ein cyd-ddynion yn well na thrwy ledaenu yn eang y gyfran mae Duw wedi roddi i ni o'i wirionedd. Yr ydym wedi derbyn yn rhydd, rhoddwn yn rhydd. Nid ydym ni sydd wedi byw erioed yn awyrgylch crefydd resymol a rhyddfrydig, wedi mwynhau goleuni gwresog meddwl a rhyddid trwy

ein hoes, nid ydym yn gwybod, allwn ni ddim gwybod beth mae y rhai hyny yn ddyoddef ydynt wedi eu dysgu o'u mebyd i ddychrynu wrth feddwl am Dduw, ac i beidio ymddiried yn ei oleuni sydd yn llewyrchu ar eu henaid. Gwnawn ein rhan i wasgar ar led belydrau gwell dydd i ddyfod. Rhown i'r byd y grefydd hono nad yw yn "yspryd ofn, ond yn yspryd nerth, cariad a phwyll."

HERMES.

MR. JOHN THOMAS JONES (EIDDIL CYNON).

GORPHENODD y cyfaill hwn ei yrfa ddaearol Mawrth 25, yn 62 oed, er colled i lawer, a galar i lawer mwy. Yr oedd wedi bod yn nychu am hir amser; ac yn ddiweddar yr oedd bywyd ar brydiau wedi myned yn feichus iawn; ond fe ddaliodd dan yr oll gydag amynedd canmoladwy. Ei glefyd oedd *asthma*. Fe'i claddwyd yn mynwent H.D.C., Aberdar, ar y 29ain, y gweinidog yn gwasanaethu. Testyn y bregeth oedd Dadguddiad xiv. 13. Gwnaethpwyd sylwadau ar farwolaeth yn gyffredinol, ac ar farw yn yr Arglwydd yn neillduol. Dymuniad pob Cristion yw marw yn yr Arglwydd. Y rheol oreu tuag at hyny yw byw yn yr Arglwydd. Os gwyn fyd y rhai sydd yn marw felly, gwyn fyd hefyd y rhai sydd yn byw felly. Gwyn fyd—pwy? Y gwr ni rodia yn nghynghor yr annuwiolion. Pwy? Gwyn eu byd y rhai sydd yn byw yn iawn. Marw a wnelwyf o farwolaeth yr uniawn. Sut mae gwneuthur hyny? Yr hwn a rodia yn uniawn, a rodia yn ddyogel. Byw yn iawn a wna sicrhau marw yn iawn. Gwyn eu byd—gweler y bregeth ar y mynydd—y tlodion yn yr yspryd, y rhai sydd yn galaru, y rhai addfwyn, y rhai sydd arnynt newyn am gyfiawnder, &c., hyny yw, y rhai sydd yn byw—yn yr Arglwydd. Gwyn eu byd. Deued amser marw pryd y delo, mae yr hwn sydd yn byw yn iawn bob amser yn barod. Y byw yn iawn yw y peth pwysig, byw yn sobr, yn gyfiawn, yn dduwiol, a'r hwn wnel felly gwyn ei fyd—wedi byw yn yr Arglwydd, mae y cyfryw yn marw yn yr Arglwydd—yn gorphwys oddiwrth eu llafur, a'u gweithredoedd yn eu canlyn hwynt.

Cyflawnodd yr Eiddil ei ran yn y byd yma yn dra anrhydeddus. Ceisiodd hyd oedd ynddo fod o ddefnydd i'w oes a'i genedlaeth. Llanwodd y swydd o ysgrifenydd i amryw gymdeithasau dyngarol am lawer o flynyddau; a bu ei enw un amser yn bur adnabyddus mewn cyssylltiadau eisteddfodol, ac nid yn anfynych y bu'n ymgeisydd buddugol am y dorch farddonol. Mae yn dra thebyg mae y darn diweddaf o farddoniaeth a gyfansoddwyd ganddo yw yr un a welir yn YR YMOFYNYDD am Ionawr, tud. 120. Yr oedd hefyd yn gantor medrus, a bu yn arweinydd llwyddiannus a pharchus yn yr H.D.C. am lawer o flynyddau. Meddai ar lawer o dact i arwain a llywodraethu cantorion—nid gwaith hawdd hyny, ac nad pwy fyddai yn pwdu, ni chlywyd son erioed fod John Jones yn pwdu. Bu yn un o'r ffyddlonaf o'r athrawon yn yr Ysgol Sul am fwy na 30 mlynedd. Yr oedd

hefyd yn un o'r *trustees* ac yn un o'r diaconiaid, ac hyd yn ddiweddar efe oedd ysgrifenydd y gynnulleidfa, ac wedi hyny y trysorydd. Yn ystod yr wyth neu y deng mlynedd diweddaf, yr oedd yn un o dri a gyflawnasant yn olynol ranau defosiynol y gwasanaeth nos Sul. Efe hefyd oedd prif ddosparthwr YR YMOFYNYDD yn ei ardal o'i gychwyniad yn 1847 hyd 1879. Gellir dywedyd mor onest am dano, ag am nemawr Yr hyn a allodd efe a'i gwnaeth. Bellach mae gwaith ei ddydd ar y ddaear ar ben. Y lle a'i gwelodd mor hir, ac mor dda, nis gwel mwy; ond erys perarogl ei gymmeriad dysglaer yn hir ar ei ol. O na byddai mwy o'i debyg—ei debyg yn ei ffyddlondeb a'i ymdrech gyda phob gwaith da. Nis gellir dywedyd ei fod yn ddyn mawr, ond yr oedd yr hyn sydd lawer gwell—yn ddyn da. Am rifedi a gwerth ein talentau nid ydym yn atebol, ond ein cymmeriadau eiddom ni ydynt, eiddom ni i'w gwneuthur yn dda neu yn ddrwg. Dewisodd yr Eiddil yn foreu y rhan dda yr hon ni ddygir oddiarno, ac y mae wedi gadael ar ol i'w deulu a'i gydnabod drysor mwyaf anmhrisiadwy y ddaear—enw da. Yr oedd yn briod ffyddlon a gofalus, yn dad tyner, yn gyfaill cywir, yn ddilychwyn yn ei gymmeriad yn holl berthynasau bywyd, yn caru y Meistr, ac yn addfwyn a gostyngedig yn ceisio dilyn ei lwybrau. Gwyn ei fyd.

BRAS-SYNIADAETH

Ar ol derbyn hysbysiad o farwolaeth fy Hen Gyfaill, y diweddar Mr. John T. Jones (Eiddil Cynon), a fu farw Mawrth 25ain, 1882, yn 62 mlwydd oed.

O! fy mâd anwyl Wlad, wyla ddeigr heli,
Etto, cu febyn call, wyt wedi 'golli;
Un o lwys Awen lawn, uniawn fyfyrdod,
Heddyw 'nghudd ro'ed yn nghell cafell y beddrod;
Un o foes bura'i oes,—Anfoes ni fynai,
Rhag pob rhith, hudol rawd, a gwawd, ymgedwai,
Dyn i ddyn, i Dduw'n was, geinwas di gwynion,
Felly bu'n cyfaill cun, hoff *Eiddil Cynon.*

Un o ddawn cyflawn oedd, uniawn egwyddor,
Carai 'i hen iaith a'i llên, addien Gymmrodor,—
Barddas lân Gwlad y gân o anian fynai,
Odlau gnŵd rhydd o rŵd a frwd efrydai;
Un o noeth gynghor coeth, doeth mewn cymdeithas
Synwyr cryf, llawn o hyf feddwl cyfaddas,—
Triniai'i bwnc trwy iawn bwyll didwyll gymmhwyllion,
Dyna'r fath un o fil oedd *Eiddil Cynon.*

Gwelw siom Ysgol Sul Teml Tregynon—
Difad bwrdd'r "Hen Dy Cwrdd," o'i bur gynghorion—
Mwyn a myg emynu mawl didawl Hen Dadau,
Cothi-fêl—Iolo-falm â'u nefol Salmau,

Mawl i'r Ion aml ei râd oedd ei fâd awydd—
Enwog oedd,—yn y Gair credai'n dragywydd,—
Hyd ei dranc enw drud *astud wir Gristion*
Haeddodd ef, i'w ddwyn gan *Eiddil glan Cynon.*

Hyd ei dref haddef ef, dolef fu'n dilyn
Llen ei arch allan i "briddellau'r dyffryn,"
Ing o'i ôl Dŵyn a dôl, aeddol ganfyddwn;
A brô deg Aberdâr, mewn galar gwelwn—
Llawer hên gyfaill hoff—fu'n drylwyr garu,
Wyla hallt li o'i ol gan ddwfn alaru.
Cwyno llesg yn y llan o hiraeth calon—
Pan ar lan "bychan fedd" hoff *Eiddil Cynon.*

Acth o'n byd, ennyd bach,—bellach, ymbwyllwn,
Awn ar dymp i'r un daith, nid maith y dwthwn;
Ei weddw hoff addwyn ef,—y Nef a'i noddo,—
Rhîn y Sant idd ei blant yn feddiant fyddo,
Goreu nawdd geir i ni, ydyw "Gwirionedd,"—
Gwrthod drwg megis mŵg,—a gŵg a gwagedd,—
Od eill fod arall fyd i rinweddolion,
Yno llawn wynfyd cawn, fel *Eiddil Cynon.*

Nathan Dyfed.

Y CYFARFOD CHWARTEROL.

Cynnaliwyd Cyfarfod Chwarterol y Pasg eleni yn Gellionen, ar y 12fed a'r 13eg o Ebrill. Yr oedd yn bresenol y gweinidogion canlynol:—T. Thomas; E. W. Lloyd; W. James, B.A.; R. C. Jones; J. H. Davies; J. J. George; J. Williams; W. Parry; a J. Evans. Dechreuwyd y cyfarfod nos Fercher gan J. Williams, Panteg, a phregethodd yn ddymunol iawn oddiar Matt. vii. 13, 14; ac ar ei ol W. Parry, oddiar Heb. xi. 22-27. Dyma'r tro cyntaf i ni glywed Mr. Parry yn traddodi'r genadwri. Rhaid dweyd, yr oedd ei bregeth yn drefnus, dyddorol ac addysgiadol; a'r traddodiad yn wir hapus a derbyniol. Llwyddiant mawr iddo. Boreu dydd Iau am hanner awr wedi deg, daeth cynnulliad gweddol dda yn nghyd, a dechreuwyd yr addoliad drwy ddarllen a gweddi gan E. W. Lloyd, a phregethodd J. J. George yn Seisneg oddiar Josua iii. 17. Peth pwysig mewn lle mynyddig fel hwn yw cael Saesonaeg *plain*, eglur. Ni cheir hyn bob amser mewn pregethau; ond bu y brawd George yn llwyddiannus iawn. Yr ydym yn diolch iddo am ei wasanaeth. Ar ei ol safodd T. Thomas y pregethwr appwyntiedig i fyny ar y *platform*, a chymmerodd yn destyn ciriau'r Apostol Ioan "A ninau a welsom, ac ydym yn tystiolaethu, ddarfod i'r Tad ddanfon y Mab i fod yn Iachawdwr i'r byd." (1 Ioan i. 14.) Yr oedd y bregeth hon, yn ol arfer y pregethwr fynychaf, yn drefnus ac eglur iawn. Trafododd hwnc yr iachawdwriaeth yn ddyddorol dros ben; dangosodd y wedd ymarferol o honi, a'r cyssylltiad agos sydd yn ffynu rhwng dyn a'i iachawdwriaeth yn y presenol, cyn myned yn mlaen tua'r dyfodol anweledig. Os nad oedd y syniadau a draethodd yn newydd i lawer o Undodiaid, yr oeddent, yn bur debyg, yn newydd i'r lluaws brodyr o enwadau ereill ag oeddynt yn bresenol. Yr oedd un *element* dda yn y pregethwr, gosododd allan ei syniadau, fel na fuasent i roddi traingwydd i neb o wahanol opiniynau crefyddol. Amynmunol i'r cithaf yw clywed rhedeg i lawr unrhyw enwad. Mae yn dda genym mai nid felly y bu yn y cyfarfod hwn; ac os gellir dwyn dynion i chwilio am y gwirionedd, meddyliwn, mai y ffordd oreu ydyw eu harwain a'u

tywys yn raddol, ac ymddwyn tuag atynt yn garedig. Nid oes neb yn foddlawn cael ei erlid a'i ddirmygu am ddim, nac am ei syniadau crefyddol.

Y Gynnadledd.—J. Evans, gweinidog yn y gadair. Pwnc—"Y Weinidogaeth yn Nghymru a'i Rhagolygon." Yr oedd R. C. Jones i ddarllen papyr ar y cwestiwn; ond yn lle hyny traddododd araeth bur hir, *extemporaneous* feddyliwn. Y prif bwynt yr ydoedd yn yru ato oedd, mai anfoddhaol oedd stad y weinidogaeth yn bresenol. Cyflogau'r gweinidogion yn rhy ddrwg i son am danynt; rhyw dair neu bedair o Eglwysi dan ofal yr un gweinidog, a'r rhai hyny yn mhell oddiwrth eu gilydd; gwasanaeth unwaith yn yr wythnos yn y capel. Dylasai'r gweinidog fod gyda'r gynnulleidfa yn gyfangwbl; ond nid felly y mae pethau, ac o ganlyniad yn anfoddhaol. Nis medrai weled unrhyw ffordd i wellhau'r stad hon chwaith, o dan y telerau (*conditions*) presenol.

Dywedai W. James ei fod yn credu nad oedd y weinidogaeth na'r Eglwys yn ddwyfol; nad yw'r weinidogaeth yn foddlhaol; ond os collwn ni fel enwad y tir o ran nifer, bydd i'r gwirionedd, serch hyny, yn sicr o fyned rhag y blaen.

T. Thomas ddywedai fod rhagolygon y rhai ag nad ydynt yn gweled eu bod yn cael digon o dâl am eu gwaith, yn ddrwg i'r eithaf. Soniai am human-aberth yr hen gewri Undodaidd, y rhai oeddent wedi dyoddef pwys a gwres y dydd: y rhai ydynt erbyn heddyw wedi myned i ffordd yr holl ddaear, ond â'u henwau yn perarogli yn ein plith. Ni dderbyniasant hwy ryw dâl mawr cricd am eu gwaith. Dywedai fod y cyflenwad o ddynion ieuainc at waith y weinidogaeth yn brin; fod hyn yn dangos nad yw ei stad hi yn foddlhaol iawn. Dyna y rhai, Mr. Gol., a siaradasant yn nghymmydogaeth y pwnc.

Y Cyfarfod Blynyddol i fod yn Pantydefaid. Pregethwr, y Parch. R. J. Jones, Aberdar. Pwnc y Gynnadledd—"Yr Ysgol Sabbothol, a'r moddion goreu i'w gwneuthur yn fwy llwyddiannus." Parch. J. H. Davies i ddarllen papyr ar y cwestiwn. Addysg Uwchraddol yn Nehenbarth Cymru. Pasiwyd penderfyniad yn y cyfarfod "Mai Abertawy ydyw y man mwyaf canolog a chyfleus i leoliad y Colegdŷ Newydd a fwriedir adeiladu yn Sir Forganwg." Awdurdodwyd y Cadeirydd i arwyddo'r penderfyniad ar ran y cyfarfod a'i anfon i'r Town Clerk, Abertawe.

Wedi cael ciniaw yn y Gwernllwyn, ffermdy gerllaw y capel, ar draul Mr. a Mrs. Davies, y rhai yn ol eu haelioni arferol a roosawasant y gweinidogion o bob enwad ac amrywiol ereill. Daethpwyd yn ol erbyn 3 o'r gloch, pryd yr oedd y lle erbyn hyn yn orlawn o wrandawyr. Dechreuwyd gan R. C. Jones, a phregethodd W. James, oddiar Gen. i. 31; a E. W. Lloyd, oddiar Gal. vi. 6. Y pregethau hyn etto yn dda; y traddodiad yn effeithiol; y gwrandawyr yn astud a difrifol; ac yehydig o amenau yma a thraw.

Wedi cael yehydig o dê a bara brith gan y gwahanol denhuoedd perthynol i'r gynnulleidfa, sef, Mrs. Williams, Tygwyn; Mrs. Smith, Wernfadog; Mrs. Williams, Gellionenganol; Mrs. Hopkins, Cythylid; Mrs. Morgans, Twllygwyddel; Mrs. John, Glyncoch; Mrs. John, Ynysmeudwy; a Miss Morgan, Heolddu; y rhai oeddynt helyd dylaswn ddweyd wedi bod mor garedig a darparu llunieth i'r dieithriaid ac ereill yn ystod y dydd. Pregethwyd am chweeh yn yr hwyr gan Hathren Davies a R. C. Jones. Y capel yn orlawn; y gwrandawyr yn astud; y pregethwyr yn eu hwylian goreu, debygwn. Felly terfynwyd un o'r cyrddau chwarterol goreu a fu gan ein henwad erioed; a gobeithiwn y bydd iddynt i fod o les mawr i'r rhai a gawsant eu tueddu a'u gallnogi i fod yn bresenol yn yr oedfaon. Yr oedd yn dda genym weled brodyr a chwiorydd o ardal Llandilo, Dowlais, ac Abertawe yn bresenol.

Gellionen, Ebrill 14, 1882. John Evans.

Nodynau ac Holiadau.

(Tdd. 45, 93, 118, 165).

(14). Pa beth sydd yn rheoli symudiad y Pasg a'r Sulgwyn? *X.Y.Z.*

(15). Odid nad oes llawer yn cofio am y Parch. Arthur Williams, (Llanbedr (?)). Yr wyf yn meddwl ei fod yn ddall yn ei

amser diweddaf. Nid wyf yn gwybod fod gofal gweinidogaethol wedi bod gydag ef, ond arferai nn amser bregethu yn bur fynych yn rhai o'n capelau yn sir Aberteifi, megys y Bwlch a'r Llwyn. Yr wyf wedi clywed siarad parchus am dano. Yr wyf yn meddwl fod ganddo un mab, Tom Williams, a ddygwyd i fyny i'r weinidogaeth Undodaidd, yr hwn yn mhen rhai blynyddau wedi myned i Loegr, a drodd yn offeiriad.—*Hymofiaethwr.*

(16.) A oes rhywun a all roi ychydig o hanes Rees Rees, gwr ieuanc gobeithiol iawn a fu yn yr ysgol unwaith gyda'r diweddar John James o'r Gellionen, er myned i'r weinidogaeth Undodaidd, ond a fu farw yn ifanc. Credaf ei fod yn ewythr brawd oi dad i'r Dr. Thomas Rees, (A.), o Abertawe. Yr wyf wedi gweled rhai llythyron o'i waith.—*S. N. S.*

(17.) *Bwlchyfadfa*, (tud. 93), adeiladwyd Bwlchyfadfa tua'r flwyddyn 1813 neu 1814, gan ran o Eglwys Llwynrhydowen oeddent o herwydd rhyw amgylchiadau annymunol wedi cymmeryd oehr y Parch. John Jones, mab y Parch. Jonathan Jones, Rhydybont, a chydweinidog Dafis Castellhywel, Gellir dweyd mai John Jones oedd sylfaenydd yr achos, ond ychydig o amser y bu yn pregethu yn y Bwlch. Chwythodd rhyw awel ef oddiyno yn fuan, a thua'r flwyddyn 1819, llwyddodd i berswadio Mr. Jones, Pantydefaid, mab y Parch. Jenkin Jones, sylfaenydd Llwynrhydowen, i adeiladu capel iddo ar ei dir ei hun, ac a gynnrychiolir yn awr gan Carmel perthynol i'r Independiaid. Yr hwn sydd yn sefyll ar *site* yr hen gapel. (Gwel yr hanes yn "Eglwysi Annibynol Cymru," gan Rees a Thomas. Cyfrol iv. tudalen 204). Ni fu rhyw lawer o lwyddiant ar yr achos yn Ngharmel yn nwylaw John Jones. Ymadawodd yn mhen ychydig flnoedd, a bu farw yn y flwyddyn 1820, yn ddyn cymharol ieuanc. Ar ol ymadawiad John Jones o'r Bwlch, cymmerodd Dafis Castellhywel at yr achos ieuanc, yn nael ei gynnorthwyo gan ei gydweinidog, sef D. L. Jones, M.A., Glyn Adda, athraw wedi hyny yn Ngholeg Caerfyrddin, a gweinidog Capel Seion, Sir Gaer. Ymadawodd Mr. Jones tua diwedd y flwyddyn 1814, os nad ydym yn camsynied, a chanlynwyd ef gan y Parch. W. Rees o Penyhont-ar-ogwy, eyn hyny o'r Cilgwyn, tad y Parch. William Rees, Rhydygwin. Coned y darllenydd fod pump Eglwys ar yr amser hwn o dan weinidogion y Llwyn, sef Llwyn, Bwlchyfadfa, Penrhiw, Allty-placa, a'r Ciliau. Yn 1820, rhoddodd yr hen Ddafis y weinidogaeth i fyny o herwydd henaint a methiant. Mae ei *resignation* o'n blaen yn awr wedi ei hysgrifenu a'i law ei hun dyddiedig Ionawr 16, 1820. Ordeiniwyd y Parch. John Davies, o Goleg Caerfyrddin, mab y Parch. D. Davies, Llanybri, yn 1821, a bu yma hyd ei farwolaeth yn 1858. Ymadawodd Mr. Rees tua'r flwyddyn 1829 neu 1830, ac ymsefydlodd yn agos i Brechfa, lle yr adeiladodd gapel cyntaf Cwmmwrdu ar ei dir ei hun yn 1832, a bu yn gweinidogaethu yno hyd ei farwolaeth yn 1844. Yn y cyfamser yr oedd Ciliau (mewn undeb a'r Cribin, ni a feddyliwn?) wedi dewis ei gweinidog ei hun yn mherson y diweddar Barch. T. J. Griffiths (Tau Gimel), ac felly yr oedd eyloh gweinidogaethol y Llwyn wedi ei gyfyngu i bedair Eglwys. Dylynwyd y Parch. W. Rees, gan y Parch. D. Evans, B.A., o Brif-ysgol Glasgow, ac wyr i'r hen fardd o Gastellhywel, yr hwn a ordeiniwyd yn y Llwyn yn 1830. Aeth Mr. Evans i fyw i gymmydogaeth Llanybyther tua'r flwyddyn 1853, a daeth Gallttyplacca yn Eglwys Annibynol o dan ei ofal of, ac yn fuan cafodd Mr. Evans ei ddewis yn weinidog Caeronen ar ymddiswyddiad y Parch. John Jeremy, a bu y ddwy gynnulleidfa o dan yr un weinidogaeth am flynyddau. Olynydd Mr. Evans yn y Llwyn, &c., oedd y Parch. Peter Joseph, eyn hyny gweinidog Cribin a Chiliau. Ymsefydlodd yn y Llwyn yn 1853, a bu farw yn 1857. Erbyn hyn yr oedd Penrhiw mewn undeb a Phanteg, wedi dyfod yn faes ar ei ben ei hun, a phan daeth y Parch. W. Thomas (Gwilym Marles) yma fel myfyriwr yn 1858, nid oedd ganddo ond y Llwyn a'r Bwlch i ofalu am danynt. Daeth yma yn gyflawn weinidog yn 1860, ar ol graddio yn M.A., yn Mhrif Ysgol Glasgow, a bu farw yn Rhagfyr, 1879, ar ol ugain mlynedd o lafur a wnaeth ei enw fel gweinidog, ysgolfeistr, ysgrifenydd i'r wasg, a dyn cyhoeddus, yn adnabyddus trwy Ddeheudir Cymru. Yn ystod ei weinidogaeth ef sylfaenwyd yr achos yn Llanlyssul, er fod pregethu wedi bod yno yn achlysurol am flynyddau. Dechreuwyd y gwasanaeth yn ysgoldy eang Mr. Thomas yn 1868, ac yno y mae etto. Am rai blynyddau yr oedd y Parch. T. Thomas, Pantydefaid, yn cydweinidogaethu ag ef yno. Yn Hydref, 1879, dylynwyd ef gan y gweinidog presenol, yr hwn sydd frodor o'r gymmydogaeth, ac a

symndodd yma o Hen-dy-Cwrdd, Aberdar. Fe sylwa'r darllenydd mai yr un gweinidogion sydd wedi bod yn y Bwlch oddiar y dechreu ag yn y Llwyn.

W. JAMES.

Llandyssul, Mawrth 15, 1882.

Marwgofion.

Gorphenaf 4ydd, 1881, yn Russel street, Lerpwl, yn 66 oed, Peter Davies, Gilfach (gynt o Loydjack). Bu am amser yn goddef poen yn ei glin; gan feddwl cael gwellhad, gadawodd ei gartref cysurus a'i deulu anwyl, yn bwriadu dod yn ol i fwynhau eu cyfeillach a'u tynerwch mewn meddiant o well iechyd. Ond nid ein meddwl ni yw meddwl Duw. Bydded i'w briod serchog a'i blant anwyl gredu fod ei ffyrdd yn uwch a gwell nâ'r eiddom ni. Aeth i Lerpwl at feddyg, yr hwn oedd yn dweyd ei fod yn gwella. Trodd ei glefyd yn sydyn, a daeth y newydd yn hollol annysgwyliadwy ei fod yn gwaethygu ac nad oedd un arwydd am wellhad, a chanlynodd yn fuan y newydd galarus ei fod wedi marw. Ergyd trwm i'w deulu. Tad y weddw a'r amddifaid fyddo yn nerth iddynt. Gadawodd luaws o gyfeillion heblaw perthynasau mewn hiraeth ar ei ol. Bu am lawer o flynyddoedd yn aelod ffyddlon o Eglwys Rhydygwin, yr hon sydd yn teimlo hiraeth a cholled ar ei ol. Trwy ei anogaeth ef yn rhoddi yn hael, a chydweithrediad ereill yn dylyn ei barodrwydd i gyfranu, y gwnaed y capel fel y mae oddifewn yn hardd a chyflens. Dygwyd ei gorff ef adref, ac ar ddydd ei angladd pregethodd W. Rees, Rhydygwin, pan yr oedd tyrfa luosog o gyfeillion a pherthynasau wedi dod yn nghyd i ddangos eu parch iddo a'u cydymdeimlad â'i weddw a'i blant. Na fydded i'r cyfryw alaru fel rhai heb obaith. Claddwyd ef yn mynwent plwyf yr Ystrad.—W. R.

Ionawr 25, yn 29 oed, William Davies, mab Mrs. Davies, Gwrthwyntisa, Trefilan, o'r darfodedigaeth. Yn yr Hydref diweddaf, gorfu arno roddi i fyny ei alwedigaeth fel clerc mewn masnachdy llieiniau yn Llundain. Yr oedd yn un a hoffid gan bawb a'i hadwaenai. Ar yr 31ain ymgynnullodd tyrfa luosog i'w hebrwng i fynwent y Plwyf.

T. AP D.

Mawrth y 25ain, yn 82 mlwydd oed, Mr. John Jones, Banc, Llanybyther. Cawsai iechyd da trwy ei oes hirfaith hyd o fewn ychydig fisoedd i'w farwolaeth, pan y gafaelwyd ynddo gan y dyfrglwyf, yr hon ni ollyngodd ei gafael nes dattod y tŷ o bridd. Yn ei gystudd fel yn ei iechyd, dangosai dymher foddlawn i drefnau'r Ior. Buasai yn aelod ffyddlon o'r Eglwys Gristionogol yn Capel-y-groes, hyd nes yr ail-agorwyd capel bychan Cwmwrdu. Wedi hyny, ymunodd â'r ychydig ffyddloniaid yno, a bu yn gwasanaethu swydd diacon yno o'r cychwyn hyd derfyn ei oes. Y mae ei le ef yn y teulu ac yn yr Eglwys yn wag iawn bellach; gan y byddai ef yn llanw ei le ei hun yn well nâ'r cyffredin. Gadawodd ar ei ol briod hawddgar a phump o blant rhinweddol, y rhai a ddymunai'r ysgrifenydd gyffwyno i nodded y Tad cyffredinol. Claddwyd ei ran farwol y dydd Mawrth canlynol yn mynwent Capel-y-groes, pan y pregethwyd yn y tŷ gan weinidog Cwmwrdu, ac y gweinyddwyd yn y capel ac ar lan y bedd gan y Parch. Mr. Thomas.

Ebrill 6ed, yn 55 mlwydd oed, Rachel, gwraig Jenkin Jones, Trafle, plwyf Llanwenog, wedi amryw fisoedd o gystudd. Claddwyd hi y Llun canlynol yn mynwent Eglwys St. John, a gweinyddwyd ar yr achlysur yn y tŷ gan weinidog Capelybryn. Boed i'r amgylchiad fod yn fendith amserol a thragywyddol i'r priod a'r plant, a phawb o gylch ei hadnabyddiaeth.

Nos Sadwrn, y 15fed o'r mis diweddaf (Ebrill), yn 44 oed, bu farw Thomas Evans, Porth Hotel, Llandyssul, a chladdwyd ef gyda'u dylwyth yn mynwent Pantdefaid y dydd Mercher canlynol. Gweinyddodd y Parch. T. T. ar yr achlysur. Yr oedd yr ymadawedig yn un o saith o blant, o ba rai nid oes ond dau yn fyw yn bresenol, sef Mrs. Jenkins, Gwarllwynoidos, a Mr. John Evans, Crosshands, Llandyssul. Y mae yr Hotel uchod yn un o'r rhai mwyaf adnabyddus a haeddbarch trwy Gymru ar gyfrif yr holl drafaelwyr ac ereill sydd yn llettya yno ar eu gwahanol deithiau trwy'r wlad. Nid oedd Mr. Evans yn briod, ond yr oedd ei nith Miss Jenkins yn ei gynnorthwyo yn holl wasanaeth a threfniadau y tŷ, yr hon hefyd, fel yr ydym wedi clywed, sydd yn bwriadu cynnal yr *Establishment* yn y blaen fel yn amser ei hewythr. Yr oedd yr ymadawedig yn un o'r rhai siriolaf, mwyaf rhywiog,

a mwyaf caredig trwy yr holl wlad. Fel prawf o barch a hoffedd y bobl o bob gradd yn gyffredinol tuag ato, yr oedd ei angladd yn un o'r mwyaf a welwyd yn y gymmydogaeth erioed. Yr hyn a dynodd sylw yr ysgrifenydd yn fwyaf neillduol ddydd yr angladd oedd nid yr holl gyfoethogion oedd yn bresenol, nid yr holl wyr meirch a'r holl wyr cerbydau a chwyddent yr orymdaith, ond amryw *hen bobl dlodion* a ddywedent wrtho â'r dagrau ar eu gruddiau eu bod wedi colli y cyfaill mwyaf ei gydymdeimlad a'i garedigrwydd a feddent yn y byd.

"Henffych i'r dydd cawn etto gwrdd
Yn Salem fry oddeutu'r bwrdd."

Barddoniaeth.

HAWLIAU'R AMAETHWR.

Mor welw yw ei rudd! ei deulu sydd
Yn rhifo ei och'neidiau dan ei bwn.
A hola'r naill i'r llall am reswm cudd
Gofidiau a thrist-yspryd mynwes hwn;
Paham mor brudd! Neshewch i wrando'i gwyn,
Tra'i galon ar ymddryllio yn ei fron—
Siarada wrtho'i hun yn nghysgod llwyn
A blanodd ef a'i law pan *gynt* yn llon.

"Ow! dydd fy ardreth etto sydd gerllaw,
A minau heb yr hyn mae meistr am gael,
Ei hawl *fyn* ef, mae'r beili wrth ei law.
Ni oddef son am aflwydd tymhor gwael,
Fy fferm *i* yw (medd ef) wel, pa'm raid im'
A'm gwraig a'm plant i weithio'i fferm am ddim,
Ein llafur *ni* a bawlia onest hur,
Ai llai gwerth llafur dyn nâ gwerth y tir?

Ei eiddo ef y *tir*, a'r pryfed sydd
Yn difa enwd y tir mor hyf a rhydd.
Ei eiddo ef bob gwelliant wnaf i'r tir,
Pa beth yw'm heiddo *i* os hyn sydd wir!
Fy awgrym o'm cyfyngder goda wg
Yn gwmmwl du ar ael yr *agent* sur,
Ac esgor wna ar dwrf y meistr tir
Yn bygwth diwedd gwaeth i'm dyddiau drwg.

Rwy'n canfod gallu cynnyrch yn y tir
Yn segur ddysgwyl am ddadblygiad llawn
Pe gweithiwn i'w gael allan, nid yn hir
Cawn fod heb roddi yn lle derbyn iawn;
Pa beth a wnaf? mae'm nos yn gaddug du,
Ond gwelaf seren draw, a'i goleu hi
Sy'n codi'n uwch a nes, ac wrthi nglyn
Fy hawliau sydd—CYFLAWNDER DYN AT DDYN."

20 *Maw.*, 1882. AERONIAN.

MARWOLAETH EIDDIL CYNON.

Eiddil Cynon a giliodd—o'r ddaear,
Ei ddiwyd daith dreuliodd;
Y gwr enwog oer hunodd,
Yn newydd drist heddyw drodd.

Cwynir mewn prudd acenion—heddyw
Am ein Eiddil Cynon:
Rhow'd ef i'w weryd hyf wron,
A llwyr frath a archolla'r fron.

Gwelw eu golwg eilwaith—yw y beirdd;
Beth bair leddfu'u hingiaith?
Anniddan rwygol annhraith,
Awen ddwys sy'n brudd ei hiaith!

Dengar pur hawddgarol—awenydd oedd
Ef, a thra gorchestol;
Anedig fardd eneidiol,
Hir welir bwlch ar ei ol.

Eiddil awenyddol noddwr—ni fu,
Ond cryf amddiffynwr;
Hwn ydoedd awen bleidiwr
Addien dad bu iddi'n dŵr.

Hynodol ei allu ydoedd;—Gwir gar
A gerid gan filoedd;
Ei awen fyw ar gyhoedd,
Hon i lu yn anwyl oedd.

Gwiw nodedig Undodwr,—a hynod
Anwyl Gymdeithaswr
Fu'r bardd Cynon union wr,
Hynawsaidd Gymmwynaswr.

Mewn tangnefedd a heddwch,—heb wawd
Bardd fu'n llawn Gwladgarwch [byd,
Yn y du lawr huned ei lwch—
Awelon uwch ei fedd wylwch!

DYFFRYNFARDD.

JENKIN HOWELL, ARGRAFFYDD, &C., ABERDAR.

AT EIN DERBYNWYR.

Taliadau :—J.J., Hirwain Rd.; T.L., Welsh Harp; E.G.; E.J., Ynyslwyd St.; D.R., Swansea; D.T., Lantwit Major; D.E., Ferndale; W.J.E., Brighton; E.P., Glyncorwg; W.D., Cribin; T.J., Cwrtnewydd; J.T., Quaker's Yard; T.D., Dolbwba; D.G., Troedyrhiw; G.E., London; E.J., Carmarthen; W.Ll., Cardiff; E.J., Ceginann.

Dalier Sylw :—Byddai yn gyfleusdra mawr i ni, pe tynid pob *Post Office Order* ar y *Mill Street* Post Office, ac yn enw R. J. Jones, Editor, &c. Sylwer yn mhellach fod y *Postal Orders* weithiau yn rhatach hefyd, ac fe ddylid eu defnyddio bob amser yn lle *stamps* mor bell ag y gellir.

☞ Drwg genym na buasai Marwgof Mr. Peter Davies wedi cael ymddangos yn gynt.

Telerau :—Pris 3c., trwy'r post 3½c.; ar dri rhifyn a throsodd telir y cludiad.

☞ *Anfoner pob archebion a gohebiaethau at*

The Editor of "Yr Ymofynydd,"
Ivy Cottage,
ABERDARE.

LLYFR CYNTAF I BLANT YR YSGOL SUL

(Ail Argraffiad),

Gan y diweddar Barch. JOHN JONES, ABERDAR.

Pris—Dwy Geiniog.

Gwerthir 100 ac uchod, yn ol 12 swllt y cant; a dwsin am 1s. 6c.

YN AWR YN BAROD, PRIS SWLLT,

LLAWLYFR YR UNDODWR:

GAN

ROBERT SPEARS, LLUNDAIN,

Wedi ei gyfieithu i'r Gymraeg, trwy ganiatad yr Awdwr, gan

DAVID EVANS.

Dylasai y llyfr cynnwysfawr hwn fod yn llaw pob ymchwiliwr am y gwirionedd. Gellir cael unrhyw nifer o hono ond anfon at *David Evans, Bodawel, Llanwnen, Carmarthen.*

D.S.—Yr elw arferol i Lyfrwerthwyr ac ereill yn cymmeryd dwsin ac uchod.